Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Gwilym**

**Plas Gwilym**
**Ffordd Victoria**
**Caernarfon**
**LL54 6HD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29 Tachwedd 2022.

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas Gwilym

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 27 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 01 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, a gynhaliwyd i brofi meysydd o'r gwasanaeth y nodwyd yn flaenorol nad oeddent yn bodloni'r gofynion rheoleiddio.  Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau priodol wedi'u cymryd a bod gwelliannau wedi'u gwneud i feysydd o'r gwasanaeth yr oedd angen rhoi sylw iddynt. O ganlyniad i'r gwelliannau a wnaed, mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau gwell. Mae'r Unigolyn Cyfrifol dynodedig yn cynnal ymweliadau ffurfiol rheolaidd â'r gwasanaeth fel rhan o'r broses o fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae hyn yn gwella gallu'r darparwr i oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg a chyflwr cyffredinol yr amgylchedd. Mae trefniadau cadarn ar waith mewn perthynas â storio meddyginiaeth, rhoi meddyginiaeth a chofnodi'r feddyginiaeth a roddir. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw yr oedd angen ei wneud ar y safle wedi'i gwblhau ac mae cynlluniau ar waith i gwblhau gweddill y gwaith ailaddurno sydd ei angen. Mae canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth bellach ar gael. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir ac mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig arall.

## Llesiant

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant, gan eu bod yn cael eu gofal a'u cymorth mewn lleoliad sy'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r awyrgylch yn gartrefol ac yn gynnes, sy'n galluogi'r bobl i deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd. Ymddengys fod y tu mewn i'r cartref wedi'i ailaddurno, ac mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y bobl eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu, gan eu bod yn cael eu cynorthwyo i gymryd eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae hyn yn helpu'r bobl i reoli eu cyflyrau meddygol, er mwyn iddynt deimlo mor iach ag y gallant. Mae bod yn gorfforol iach yn cefnogi ymdeimlad cyffredinol y bobl o lesiant ac yn gwella ansawdd eu bywyd.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei gael. Mae hyn yn galluogi'r bobl i gael lefel dda o wybodaeth am y gofal a'r cymorth a roddir, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad hyddysg o ran a yw'r cartref yn addas iddynt. Drwy barhau i wneud penderfyniadau, mae'r bobl yn cynnal ymdeimlad o ymreolaeth a rheolaeth dros faterion pwysig yn eu bywydau.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae trefniadau ar waith i helpu'r bobl i reoli eu harian yn ddiogel. Dim ond staff a ddynodwyd gan y rheolwr all gael gafael ar arian personol y bobl, a gaiff ei storio'n ddiogel, ac mae dogfennaeth ar waith i gofnodi'r trafodion a wneir gan y bobl. Cynhelir gwiriadau ar lefel rheoli i sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn effeithiol wrth ddiogelu arian personol y bobl.

## Gofal a Chymorth

Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n ddiogel yn y gwasanaeth. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd nad oedd nifer o'r arferion yn ymwneud â meddyginiaeth yn effeithiol a'u bod yn peri risg o niwed i'r bobl. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd a bod gwelliannau wedi'u gwneud. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol ac yn ddiogel, yn unol â chanllawiau fferyllol. Mae pob aelod o'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth yn mynychu hyfforddiant perthnasol ac mae'r uwch-aelodau o staff yn cadarnhau bod y staff wedi deall yr hyfforddiant. Gwnaethom arsylwi ar y rownd meddyginiaeth amser cinio, a gwelsom fod y bobl yn cael dewis a ydynt am gymryd y feddyginiaeth a ragnodwyd ar eu cyfer ai peidio. Perchir penderfyniad y bobl i wrthod eu meddyginiaeth, a chynigir y feddyginiaeth iddynt eto'n ddiweddarach. Defnyddir dogfennaeth newydd i gofnodi pryd y cafodd y feddyginiaeth ei rhoi. Dywedodd y staff wrthym fod y cofnodion rhoi meddyginiaeth newydd yn haws eu defnyddio. Gwnaed gwelliannau hefyd i'r broses o gofnodi'r defnydd o elïau a roddwyd ar bresgripsiwn, sy'n sicrhau y caiff croen y bobl ofal priodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, sy'n cefnogi eu llesiant. Yn ystod y ddau arolygiad diwethaf, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i gyflwr cyffredinol y tu mewn i'r adeilad. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd a bod gwelliannau wedi'u gwneud i ansawdd cyffredinol yr addurn y tu mewn i'r adeilad. Mae hyn yn helpu'r bobl i deimlo'n fwy cysurus ac yn cyfrannu at eu hymdeimlad o falchder yn eu cartref. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yr oedd ei angen wedi'i gwblhau, ond mae angen rhoi sylw i rai ardaloedd o'r amgylchedd o hyd,  yn bennaf yn y prif goridor hir sy'n cysylltu'r unedau ar wahân o fewn y cartref. Gwnaethom drafod y gwaith sy'n weddill â'r rheolwr, ac mae'n ymwybodol bod angen unioni'r meysydd hyn sy'n weddill o hyd. Gwelsom dystiolaeth bod cynlluniau cadarn ar waith i ymdrin â'r gwaith sy'n ofynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol drefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Yn ystod y ddau arolygiad diwethaf, gwelsom fod angen gwella pa mor aml y mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd i wella'r agwedd hon ar sicrhau ansawdd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn monitro ansawdd y gofal a roddir. Mae adroddiadau ar gael sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ei ymweliad, er mwyn llywio'r broses o fonitro'r gwasanaeth. Caiff ymweliadau â'r gwasanaeth yn y dyfodol hefyd eu cynllunio ymlaen llaw.

Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei gael. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom na allai'r bobl gael gafael ar ganllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth. Mae angen canllaw i'r gwasanaeth er mwyn galluogi'r bobl i wneud dewis hyddysg o ran a yw'r gwasanaeth yn addas i ddiwallu eu hanghenion. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd a bod canllaw i'r gwasanaeth ar gael. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth glir am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, pwy fydd yn rhoi'r gofal a'r cymorth a sut y gall y bobl wneud cwyn, os bydd angen.

Mae trefniadau ar waith i helpu'r bobl i reoli eu harian personol. Caiff arian personol y bobl ei storio'n ddiogel. Cedwir cofnodion sy'n dangos y swm o arian a gedwir ar ran y bobl, a'r trafodion a wneir. Dywedodd y rheolwr wrthym mai dim ond uwch-aelodau o'r staff all gael gafael ar arian personol y bobl, mewn parau, ac y caiff balansau eu gwirio'n rheolaidd gan ddau uwch-aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn gywir. Gwnaethom wirio sampl o arian personol y bobl, a oedd wedi'i storio gan y gwasanaeth ar eu rhan, a gwelsom fod yr arian yn cyfateb i'r balans ysgrifenedig a gofnodwyd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff gofal a chymorth y bobl eu darparu mewn amgylchedd sy'n cynnal eu hurddas a'u parch ac yn rhoi safon byw ddigonol iddynt. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn lliniaru'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnal urddas a pharch y bobl ac yn rhoi safon byw ddigonol iddynt. | Cyflawnwyd |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaeth yn bersonol bob tri mis o leiaf, a chyfarfod â'r unigolion a'r staff. | |
| 58 | Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddigon cadarn i sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd a bod cofnod effeithiol yn cael ei gadw o'r feddyginiaeth a roddwyd. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 60 | Ni chaiff Hysbysiadau Rheoliad 60 bob amser eu cyflwyno i AGC pan fo angen. | Adolygwyd |
| 19 | Nid yw'r canllaw gwybodaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ac mae wedi'i gynnwys o fewn y datganiad o ddiben ar hyn o bryd. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/01/2023